# Y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus

| | |
|---|---|
| Lleoliad: | **Ystafell Bwyllgora 3 – Senedd** |
| Dyddiad: | **Dydd Mawrth, 5 Mai 2015** |
| Amser: | **09.00 – 10.57** |

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

## Cofnodion Cryno:
Preifat

Aelodau'r Cynulliad:

**Darren Millar AC (Cadeirydd)**
**Jocelyn Davies AC**
**William Graham AC**
**Mike Hedges AC**
**Sandy Mewies AC**
**Julie Morgan AC**
**Jenny Rathbone AC**
**Aled Roberts AC**

Staff y Pwyllgor:

**Michael Kay (Clerc)**
**Leanne Hatcher (Ail Clerc)**
**Claire Griffiths (Dirprwy Glerc)**
**Tanwen Summers (Dirprwy Glerc)**
**Joanest Varney-Jackson (Cynghorydd Cyfreithiol)**
**Andrew Minnis (Ymchwilydd)**
**Stephen Martin (Swyddfa Archwilio Cymru)**
**Jeremy Morgan (Swyddfa Archwilio Cymru)**
**Matthew Mortlock (Swyddfa Archwilio Cymru)**
**Carol Moseley (Swyddfa Archwilio Cymru)**

**Mike Usher (Swyddfa Archwilio Cymru)**

---

**Derbyniodd y Pwyllgor, ar 28 Ebrill 2015, gynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod hwn.**

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau a dirprwyon

1.1 Croesawodd y Cadeirydd yr Aelodau i'r cyfarfod.
1.2 Ni chafwyd unrhyw ymddiheuriadau.

## 2 Papurau i'w nodi

2.1 Cafodd y papurau eu nodi.

2.1 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Llythyr gan Archwilydd Cyffredinol Cymru (24 Ebrill 2015)

2.2 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Gwybodaeth ychwanegol gan y Sefydliad Siartredig Priffyrdd a Chludiant

2.3 Craffu ar Gyfrifon y Comisiynwyr ar gyfer 2013-14: Llythyr gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, Comisiynydd Plant Cymru, Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru (28 Ebrill, 2015)

2.4 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: Llythyr gan James Price, Llywodraeth Cymru (28 Ebrill 2015)

## 3 Trefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon: Trafod y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru

3.1 Bu'r Aelodau yn trafod y wybodaeth ddiweddaraf gan Lywodraeth Cymru, ac yn benodol, Argymhelliad 3, lle'r oedd y Pwyllgor yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn diwygio'r Rheoliadau i'w gwneud yn ofynnol bod o leiaf un aelod o bob corff llywodraethu yn cael ei ddynodi i arwain ar faterion adnoddau dynol, a bod pob aelod o'r fath wedi'i hyfforddi'n briodol i gyflawni'r rôl hon.
3.2 Cytunodd Cynghorydd Cyfreithiol y Pwyllgor i baratoi Nodyn Cyngor Cyfreithiol ar y Rheoliadau ar gyfer ei drafod ymhellach gan y Pwyllgor.
3.3 Ar ôl cael y Nodyn Cyngor Cyfreithiol, cytunodd y Cadeirydd y byddai'n ysgrifennu at Lywodraeth Cymru yn nodi'n glir beth yr oedd y Pwyllgor yn gobeithio y byddai Argymhelliad 3 yn ei gyflawni, ac yn gofyn am roi rhagor o ystyriaeth i'r mater.

3.4 Cytunodd y Pwyllgor i ysgrifennu at Gadeirydd y Pwyllgor Addysg Plant, Pobl Ifanc i godi materion sydd o ddiddordeb fel rhan o'i ymchwiliad i drefniadau cyflenwi ar gyfer absenoldeb athrawon.

## 4 Gwasanaeth Awyr oddi mewn i Gymru - Caerdydd i Ynys Môn

4.1 Nododd yr Aelodau yr Adroddiad Arup a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd mis Mawrth, a thrafodwyd ef.
4.2 Gofynnodd yr Aelodau i'r Clercod baratoi adroddiad drafft i'w ystyried.

## 5 Llywodraethu Byrddau Iechyd GIG Cymru: Memorandwm Archwilydd Cyffredinol Cymru a thystiolaeth gan Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr

5.1 Bu'r Aelodau yn trafod Memorandwm Archwilydd Cyffredinol Cymru ar Lywodraethu'r GIG.
5.2 Trafododd yr Aelodau'r wybodaeth ychwanegol a gafwyd gan Dr Peter Higson, Cadeirydd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr yn dilyn ei ymddangosiad yn y Pwyllgor ar 24 Mawrth.
5.3 Gofynnodd yr Aelodau i'r Clercod baratoi adroddiad drafft i'w ystyried.

## 6 Ymchwiliad i werth am arian Buddsoddi mewn Traffyrdd a Chefnffyrdd: y prif faterion dan sylw

6.1 Bu'r Aelodau yn ystyried a thrafod y papur materion allweddol, a nodwyd y bydd y Clercod yn drafftio adroddiad i'w ystyried mewn cyfarfod yn y dyfodol.

## 7 Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus 2014-2015.

7.1 Ystyriodd yr Aelodau'r adroddiad drafft a chytunwyd y byddai fersiwn ddiwygiedig yn cael ei dosbarthu drwy e-bost er mwyn cael sylwadau arni.

## 8 Cydnerthedd ariannol cynghorau yng Nghymru: Sesiwn friffio gyda Swyddfa Archwilio Cymru

8.1 Oherwydd prinder amser, gohiriwyd yr eitem hon a chaiff ei hail-drefnu ar gyfer cyfarfod yn y dyfodol.